
Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru

Wales Abdominal Aortic Aneurysm Screening Programme

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru

## Adroddiad Ystadegol Blynyddol 2020-21




*Cyhoeddiad Ystadegau Swyddogol Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru*

# Amdanom ni

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.

Rydym yn rhan o'r GIG ac yn adrodd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

Ein gweledigaeth yw sicrhau Cymru iachach, hapusach a thecach. Rydym yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol, gyda'n partneriaid ac ar draws cymunedau yn y meysydd canlynol:

**Diogelu iechyd** — darparu gwybodaeth a chyngor a chymryd camau i ddiogelu pobl rhag clefyd trosglwyddadwy a pheryglon amgylcheddol

**Gofal sylfaenol, cymunedol ac integredig** — cryfhau effaith iechyd y cyhoedd drwy bolisi, comisiynu, cynllunio a darparu gwasanaethau

**Microbioleg** — darparu rhwydwaith o wasanaethau microbioleg sy'n cynorthwyo diagnosis o glefydau heintus a'u rheoli

**Diogelu** — darparu arbenigedd a chyngor strategol i helpu i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed

**Sgrinio** — darparu rhaglenni sgrinio sy'n cynorthwyo canfod clefydau'n gynnar, eu hatal a'u trin

**Gwybodaeth iechyd** — dadansoddi data iechyd y cyhoedd, dod o hyd i dystiolaeth a rheoli gwybodaeth

**Gwella ansawdd a diogelwch cleifion y GIG** — darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r GIG i wella canlyniadau cleifion

**Polisi, ymchwil a datblygu rhyngwladol** — dylanwadu ar bolisi, cynorthwyo ymchwil a chyfrannu at ddatblygu iechyd yn rhyngwladol

**Gwella iechyd** — gweithio ar draws asiantaethau a darparu gwasanaethau i'r boblogaeth er mwyn gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd

## Rhagor o wybodaeth


Gwefan: icc.gig.cymru

E-bost: ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk

Twitter: @IechydCyhoeddus

Facebook: facebook.com/iechydcyhoedduscymru

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb manwl o wybodaeth am waith a wnaed gan Raglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill 2020 tan ddiwedd mis Mawrth 2021.

## Manylion Cyhoeddi:

**Teitl:** Adroddiad Ystadegol Blynyddol Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru 2020-21

**Dyddiad:** Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Awst 2024

**ISBN:** 978-1-83766-434-4

## I gael rhagor o wybodaeth am yr adroddiad hwn cysylltwch â:

Helen Clayton, Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data,
Yr Is-adran Gwybodeg, Llawr 6, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ
Ffôn: 029 2010 4405

E-bost: screening.information@wales.nhs.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg heb oedi / We welcome correspondence and phone calls in Welsh. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg yn ddi-oed.

## Datganiad Sicrhau Ansawdd

Mae cofnodion data sgrinio yn cael eu diweddaru'n barhaus. Mae’r cronfeydd data a ddefnyddir gan Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddaru’n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (archifo). Gallai hyn ymwneud â phan fydd unigolyn wedi’i nodi fel rhywun y mae angen gwasanaeth sgrinio arno; wedi cael canlyniadau sy'n rhaid eu cofnodi, neu â newid statws ac nad oes angen sgrinio arno mwyach yn y drefn honno. Derbynnir data o nifer fawr o ffynonellau gwahanol sy’n amrywio o ran cywirdeb a chyflawnder. Mae'r Adran Sgrinio yn gwirio data ar gyfer cywirdeb drwy gymharu setiau data – er enghraifft data practis meddyg teulu – ac yn cywiro'r data codio lle y bo'n bosibl. Dylid nodi y ceir oedi weithiau o ran casglu data – er enghraifft efallai na fydd person yn cofrestru gyda'i feddyg teulu ar unwaith os bydd yn symud cyfeiriad. Felly bydd yr oedi hwn yn effeithio ar gyflawnder y data yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal, dylai’r darllenydd fod yn ymwybodol bod y data yn cael eu diweddaru’n barhaus a gall fod mân addasiadau i’r rhifau a ddyfynnir yn y ddogfen hon o’r naill flwyddyn i’r llall yn sgil diweddaru’r data. Weithiau rydym yn atal niferoedd sy'n is na phump lle mae'n bosibl bod y data'n sensitif.

© 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gellir atgynhyrchu deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/ ar yr amod y caiff hynny ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae’r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a’r diwygio yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

This document is also available in English.

# Cynnwys

**1 CYFLWYNIAD .................................................................. 6**

**1.1 'NEGESEUON ALLWEDDOL' I'R CYHOEDD ............................... 6**
1.2 Cyflawni'r rhaglen ............................................................... 8
1.3 Llwybr sgrinio ...................................................................... 8

**2 PENAWDAU YSTADEGOL ........................................................ 9**

**3 DATA ................................................................................... 11**
3.1 Canran y rhai a gafodd eu sgrinio ........................................... 11
3.2 Heb ei delweddu .................................................................. 16
3.3 Dynion sy'n hunanatgyfeirio .................................................. 17
3.4 Ymlediadau aortig abdomenol a gafodd eu canfod ...................... 18
3.5 Nifer y rhai a gafodd oruchwyliaeth ar gyfer Ymlediad ................ 19
3.6 Atgyfeirio i dîm amlddisgyblaethol ........................................... 19

**4 DIFFINIADAU ........................................................................ 20**

**5 TÎM CYNHYRCHU ................................................................... 21**

# Tablau a Graffiau

Tabl 1a: Canran y rhai a gafodd eu sgrinio am ymlediadau aortig abdomenol yn ôl bwrdd iechyd preswyl (%).........................11

Tabl 1aa: Canran y rhai a gafodd eu sgrinio am ymlediadau aortig abdomenol yn ôl mis gwahoddiad.......................................12

Graff 1a: Canran y rhai a gafodd eu sgrinio am ymlediadau aortig abdomenol yn ôl bwrdd iechyd preswyl (%).........................13

Tabl 1b: Canran y rhai a gafodd eu sgrinio am ymlediadau aortig abdomenol yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl (%)......................................................................14

Graff 1b: Canran y rhai a gafodd eu sgrinio am ymlediadau aortig abdomenol yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl (%)......................................................................15

Tabl 2: Cyfradd heb ei delweddu yn ôl bwrdd iechyd preswyl..............16

Tabl 3: Canran y rhai a gafodd eu sgrinio lle cafodd ymlediad aortig abdomenol (≥3cm) ei ganfod yn ôl bwrdd iechyd preswyl.......18

# 1 Cyflwyniad

Dyma'r chweched adroddiad ystadegol blynyddol a gyhoeddir gan Raglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru (y Rhaglen).

Lansiwyd y Rhaglen ym mis Mai 2013 a'i nod yw haneru marwolaethau sy'n gysylltiedig ag ymlediad aortig abdomenol (ymlediad) erbyn 2025 yn y boblogaeth gymwys drwy raglen sgrinio systematig ar gyfer dynion 65 oed sy'n byw yng Nghymru. Ers 1 Mai 2015, gall dynion nad ydynt erioed wedi bod am sgan sgrinio ymlediadau gan y GIG ac nad ydynt wedi cael cynnig sgrinio ymlediadau ar adeg eu pen-blwydd yn 65 cyn iddo fod ar gael yng Nghymru gysylltu â'r swyddfeydd sgrinio lleol i ofyn am sgan sgrinio ymlediadau.

Mae tystiolaeth ymchwil wedi dangos y gall rhaglen sgrinio o ansawdd uchel leihau marwolaethau oherwydd ymlediad aortig toredig tua 50% mewn dynion 65 – 74 oed[1]. Ym mis Chwefror 2007, cymeradwyodd Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU gyflwyno sgrinio am ymlediadau i ddynion 65 oed drwy ddefnyddio sganio uwchsain abdomenol ar yr amod bod:

- Gwybodaeth glir am risgiau llawdriniaeth ddewisol yn cael ei rhoi i'r dynion a wahoddwyd, a
- Bod rhwydweithiau fasgwlaidd yn eu lle i drin unigolion a atgyfeiriwyd o sgrinio

Ym mis Mawrth 2020, gwnaed y penderfyniad anodd i oedi rhai o'r rhaglenni sgrinio cenedlaethol yng Nghymru, gan gynnwys WAAASP, mewn ymateb i bandemig COVID-19. Gwnaed y penderfyniad i oedi sgrinio sylfaenol effeithio ar glinigau a drefnwyd ar gyfer ar ôl 17 Mawrth, a gwnaed y penderfyniad i oedi hunanatgyfeiriadau ar 24 Mawrth. Ailddechreuodd sgrinio ym mis Awst, a bydd yr oedi wedi effeithio ar rai mesurau fel canran y rhai a gafodd eu sgrinio.

## 1.1 'Negeseuon allweddol' i'r cyhoedd

- Mae cael y prawf sgrinio yn lleihau'r risg o farw o ymlediad. Mae dod o hyd i ymlediad yn gynnar yn rhoi'r cyfle gorau i'r dyn gael triniaeth a goroesi

[1] Ashton HA, Buxton MJ, Day NE, Kim LG, Marteau TM, Scott RAP et al. (2002) Multicentre Aneurysm Screening Study Group. The Multicentre Aneurysm Screening Study (MASS) into the effect of abdominal aortic aneurysm screening on mortality in men: a randomised controlled trial. *Lancet*;360 (9345):1531-9

- Yr aorta yw'r brif bibell waed sy'n cyflenwi gwaed i'r corff. Mae ymlediad yn chwyddo yn yr aorta yn yr abdomen, ac os bydd yn cael ei gadael heb ei chanfod, efallai y bydd yn rhannu neu dorri
- Mae sgrinio am ymlediad yn cynnwys sgan uwchsain syml i fesur yr aorta abdomenol
- Mae sgrinio am ymlediad yn brawf am ddim gan y GIG a gynhelir mewn clinigau cymunedol
- Dewis y dyn yw cymryd rhan mewn sgrinio am ymlediad

## 1.2 Cyflawni'r rhaglen

Mae Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am reoli, cyflawni a sicrhau ansawdd y rhaglen. Mae'r rhaglen yn cyflogi Pennaeth Rhaglen, Rheolwr Rhaglen, Arweinydd Sicrhau Ansawdd Llawfeddygol Fasgwlaidd, Cynghorydd Delweddu Clinigol, Arweinydd Ansawdd, Addysg a Hyfforddiant, tri hyfforddwr sgiliau clinigol a Chydlynydd Gweinyddu Cymru Gyfan gyda chymorth gan dîm ysgrifenyddol a gweinyddol. Er ei bod yn rhaglen i Gymru gyfan, ceir cydlynu rhanbarthol gan dri Chydlynydd Rhanbarthol a thîm o 19 o sgrinwyr sy'n darparu'r sgrinio yn y gymuned.

## 1.3 Llwybr sgrinio

- Mae dynion 65 oed sy'n byw yng Nghymru ac wedi cofrestru gyda meddyg teulu yn cael eu gwahodd am sgan uwchsain untro i wirio a oes ganddynt ymlediad
- Mae'r prawf yn cynnwys sgan syml o'r aorta abdomenol, gan fesur rhan letaf yr aorta
- Mae sganio uwchsain yn cael ei gynnal mewn 66 o glinigau cymunedol ledled Cymru gan gynnwys ysbytai cymunedol, clinigau iechyd, canolfannau adnoddau sylfaenol a phractisau meddyg teulu. Cynhelir sgrinio yn CEM Berwyn, CEM Parc, CEM Brynbuga a CEM Prescoed
- Mae dynion â diamedr aortig abdomenol o lai na 3cm yn cael eu rhyddhau o'r rhaglen
- Mae dynion ag ymlediad bach neu ganolig yn cael eu cynnwys yn y rhaglen oruchwylio ac maent yn cael cynnig:
    - sgan blynyddol ar gyfer ymlediad bach (3 - 4.4cm)
    - sgan bob tri mis ar gyfer ymlediad canolig (4.5 - 5.4cm)
    - apwyntiad dros y ffôn gyda'r nyrs goruchwylio ymlediad i drafod y canlyniad a'i oblygiadau o ran iechyd
    - anogaeth i drefnu apwyntiad gyda'u meddyg teulu i gael cyngor ar ffordd o fyw ac iechyd, monitro pwysedd gwaed a'r therapi meddygol gorau
- Mae dynion ag ymlediad mawr 5.5cm neu fwy (neu dwf o 1cm neu fwy mewn 12 mis) yn cael eu hatgyfeirio i dîm Amlbroffesiynol y Rhwydwaith Fasgwlaidd dewisol (y Tîm Amlddisgyblaethol)
- Fel arfer, cynigir ail apwyntiad gyda'r Rhaglen i ddynion ag aorta heb ei delweddu. Os yw'r ail apwyntiad yn aflwyddiannus, caiff y dyn ei atgyfeirio i adran ddelweddu feddygol i fesur ei aorta abdomenol

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/sgrinio-ymlediadau-aortig-abdomenol-cymru/](https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/sgrinio-ymlediadau-aortig-abdomenol-cymru/)

## 2 Penawdau Ystadegol

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod amser rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021. Oherwydd pandemig Covid-19 cafodd sgrinio ymlediadau ei oedi am bum mis ar 18 Mawrth 2020.

Mae canran y rhai a gafodd eu sgrinio wedi'i diffinio fel y rhai a wahoddwyd yn y flwyddyn 2020-21 a gafodd sgan erbyn 30 Mehefin 2021. Mae canran y rhai a gafodd eu sgrinio wedi'i effeithio'n sylweddol gan yr oedi o ran sgrinio ymlediadau. Gan nad oedd unrhyw glinigau'n gweithredu o 18 Mawrth, roedd gan ddynion a wahoddwyd tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol nad oeddent wedi mynd i'w hapwyntiad cyntaf, lai o gyfle i aildrefnu neu gael eu gwahodd am ail apwyntiad.

- Canran y rhai a gafodd eu sgrinio o blith cyfranogwyr a wahoddwyd rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 oedd 84.6%, yn amrywio o 79.5% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i 86.9% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

- Mae'r ganran sy'n cael eu sgrinio yn uwch ymhlith y dynion hynny sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf (87.5%, Cwintel 2) o gymharu â'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf (78.5%, Cwintel 5)

- Gostyngodd canran y rhai a gafodd sgrinio ymlediadau yn 2019-20 i fod yn is na'r targed o 80%, sef 71.9% er bod hyn yn adlewyrchu effaith pandemig COVID ar fisoedd olaf y flwyddyn ariannol; Fodd bynnag, mae'r ganran wedi cynyddu ers hynny yn ôl i fod yn uwch na'r targed 80%.

Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021:

- Cafodd 4,209 o ddynion cymwys eu gwahodd gan y rhaglen. O' rhain, aeth 3,562 o ddynion i gael eu sgan cyntaf o dan y Rhaglen a chael canlyniad sgan diffiniol

- O'r dynion a aeth i gael eu sgrinio, gwnaeth y rhaglen sgrinio ganfod ymlediad mewn 44 o ddynion (1.1%)

- Roedd angen i 44 o ddynion a gafodd eu sganio gael atgyfeiriad i dîm amlddisgyblaethol y rhwydwaith fasgwlaidd dewisol. Cafodd 90.9% o'r dynion hyn eu hatgyfeirio o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r sgan

- Cafodd 37 o ddynion lawdriniaeth agored neu endofasgwlaidd. Mae hon yn garfan wahanol i'r dynion a gafodd eu sganio a'u hatgyfeirio yn y flwyddyn. Cafodd dau (5.4%) o'r rhain eu llawdriniaeth wedi'i chwblhau o fewn pedair neu wyth wythnos i'r atgyfeiriad gael ei dderbyn, yn dibynnu ar faint yr ymlediad a ganfuwyd

- Cymerwyd 525 (47.0%) o sganiau gwyliadwriaeth o fewn y safon o 1,117 o gyfleoedd posibl (ymlediad canolig ar oruchwyliaeth chwarterol o fewn 11 i 15 wythnos, ymlediad bach ar oruchwyliaeth flynyddol o fewn 50 i 56 wythnos i'w sgan llwyddiannus blaenorol)

- Sgriniwyd 99 o ddynion a wnaeth hunanatgyfeirio gan ganfod chwech (6.1%) o ymlediadau

# 3 Data

## 3.1 Canran y rhai a gafodd eu sgrinio

Y Safon: Isafswm o 80% o ddynion a wahoddwyd sy'n mynd i sgrinio am ymlediadau yn cael eu profi.

Ar lefel Cymru gyfan, canran y rhai a gafodd eu sgrinio ar gyfer 2020/21 oedd 84.6%. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o gymharu â 71.9% yn 2019/20 pan na chyrhaeddwyd y safon. Mae hyn yn adlewyrchu effaith pandemig COVID ar y ganran.

**Tabl 1a:** Canran y rhai a gafodd eu sgrinio am ymlediadau aortig abdomenol yn ôl bwrdd iechyd preswyl

| Bwrdd Iechyd | Gwahoddwyd | Profwyd | % y rhai a gafodd brawf |
|---|---|---|---|
| Prifysgol Aneurin Bevan | 611 | 518 | **84.8** |
| Prifysgol Betsi Cadwaladr | 1,402 | 1,201 | **85.7** |
| Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 239 | 198 | **82.8** |
| Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 527 | 458 | **86.9** |
| Prifysgol Hywel Dda | 551 | 463 | **84.0** |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 248 | 214 | **86.3** |
| Prifysgol Bae Abertawe | 552 | 439 | **79.5** |
| Anhysbys | 79 | 71 | **89.9** |
| **Cymru Gyfan** | **4,209** | **3,562** | **84.6** |


Noder: nifer y rhai a gafodd eu sgrinio wedi'i ddatgan (o'r rhai cymwys a wahoddwyd yn y flwyddyn, nifer a brofwyd erbyn 30 Mehefin 2021). Mae anhysbys yn cyfeirio at ddynion na ellir eu dyrannu i Fwrdd Iechyd. Fodd bynnag maent wedi'u cynnwys yn y cyfanswm ar gyfer Cymru gyfan.

Mae'r tabl canlynol yn dangos canran y rhai a gafodd eu sgrinio bob mis drwy gydol y flwyddyn. Mae'n dangos perfformiad da cyson ar ddechrau'r flwyddyn, wedyn canran isel ar ddechrau 2020.

**Tabl 1aa:** Canran y rhai a gafodd eu sgrinio am ymlediadau aortig abdomenol yn ôl mis gwahoddiad

| Blwyddyn | Mis | Gwahoddwyd | Profwyd | % y rhai a gafodd brawf |
|---|---|---|---|---|
| 2020 | Ebrill | 0 | 0 | 0 |
| 2020 | Mai | 0 | 0 | 0 |
| 2020 | Mehefin | 0 | 0 | 0 |
| 2020 | Gorffennaf | 0 | 0 | 0 |
| 2020 | Awst | 0 | 0 | 0 |
| 2020 | Medi | 149 | 128 | 85.9 |
| 2020 | Hydref | 284 | 250 | 88.0 |
| 2020 | Tachwedd | 369 | 323 | 87.5 |
| 2020 | Rhagfyr | 615 | 528 | 85.9 |
| 2021 | Ionawr | 755 | 652 | 86.4 |
| 2021 | Chwefror | 972 | 810 | 83.3 |
| 2021 | Mawrth | 1,065 | 871 | 81.8 |
| **Cyfanswm** | | 4,209 | 3,562 | 84.6 |

**Graff 1a:** Canran y rhai a gafodd eu sgrinio am ymlediadau aortig abdomenol yn ôl bwrdd iechyd preswyl (%)




**Tabl 1b:** Canran y rhai a gafodd eu sgrinio am ymlediadau aortig abdomenol yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl (%)

| **Bwrdd Iechyd** | **C1 – amddifadedd lleiaf** | **C2** | **C3** | **C4** | **C5 – amddifadedd mwyaf** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Aneurin Bevan | 90.5 | 87.9 | 83.9 | 84.9 | 79.6 | **84.8** |
| Prifysgol Betsi Cadwaladr | 86.2 | 88.1 | 88.0 | 82.3 | 78.8 | **85.7** |
| Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 87.4 | 79.4 | 76.5 | 85.7 | 72.5 | **82.8** |
| Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 89.5 | 92.0 | 92.1 | 83.8 | 83.6 | **86.9** |
| Prifysgol Hywel Dda | 87.5 | 84.2 | 83.1 | 84.8 | 82.9 | **84.0** |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 87.0 | 88.0 | 84.9 | 78.6 | 75.0 | **86.3** |
| Prifysgol Bae Abertawe | 85.7 | 88.9 | 79.6 | 73.2 | 72.9 | **79.5** |
| Anhysbys | - | - | - | - | - | **89.9** |
| **Cymru Gyfan** | **87.2** | **87.5** | **85.3** | **82.2** | **78.5** | **84.6** |

Noder: Mae anhysbys yn cyfeirio at ddynion na ellir eu dyrannu i Fwrdd Iechyd. Fodd bynnag maent wedi'u cynnwys yn y cyfanswm ar gyfer Cymru gyfan.

**Graff 1b:** Canran y rhai a gafodd eu sgrinio am ymlediadau aortig abdomenol yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl (%)




Mae hyn yn dangos, yn gyffredinol ar draws pob bwrdd iechyd, bod canran y rhai a gafodd eu sgrinio yn gostwng wrth i'r sgôr amddifadedd gynyddu. Dylid nodi bod Cwintel 5 ym Mhowys yn cynnwys niferoedd bach.

## 3.2 Heb ei delweddu

Y Safon: ≤3% o apwyntiadau a ganiatawyd a arweiniodd at aorta heb ei delweddu.

**Tabl 2:** Cyfradd heb ei delweddu yn ôl bwrdd iechyd preswyl

| **Bwrdd Iechyd** | **Sganiau** | **Heb ei delweddu** | **Cyfradd heb ei delweddu (%)** |
|---|---|---|---|
| Prifysgol Aneurin Bevan | 812 | 14 | **1.7** |
| Prifysgol Betsi Cadwaladr | 1,515 | 20 | **1.3** |
| Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 471 | 8 | **1.7** |
| Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 742 | 16 | **2.2** |
| Prifysgol Hywel Dda | 675 | 0 | **0.0** |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 361 | 5 | **1.4** |
| Prifysgol Bae Abertawe | 579 | 0 | **0.0** |
| Anhysbys | 109 | 3 | **2.8** |
| **Cymru Gyfan** | **5,264** | **66** | **1.3** |

Noder: mae data heb ei delweddu yn cyfeirio at nifer yr apwyntiadau a gwblhawyd lle na chafodd yr aorta abdomenol ei gweld.

## 3.3 Dynion sy'n hunanatgyfeirio

Ers 1 Mai 2015, gall dynion dros 65 oed nad ydynt wedi cael sgan sgrinio uwchsain ar gyfer ymlediadau hunanatgyfeirio drwy gysylltu â'r rhaglen sgrinio i ofyn am apwyntiad. Rhagwelir y bydd nifer y dynion sy'n hunanatgyfeirio ar gyfer sgrinio am ymlediadau yn gostwng wrth i'r rhaglen aeddfedu.

Yn ystod 2020-21, sganiwyd 99 o ddynion a wnaeth hunanatgyfeirio gan ganfod chwech (6.1%) o ymlediadau. Mae hyn yn cynnwys dynion nad ydynt wedi'u gwahodd gan y rhaglen yn flaenorol yn unig.

## 3.4 Ymlediadau aortig abdomenol a gafodd eu canfod

Y Safon: O'r rhai a sgriniwyd disgwylir y bydd gan 1% ymlediad (≥3cm).

**Tabl 3:** Canran y rhai a gafodd eu sgrinio lle cafodd ymlediad aortig abdomenol (≥3cm) ei ganfod yn ôl bwrdd iechyd preswyl

| Bwrdd Iechyd | Aethpwyd | Cyfanswm yr Ymlediadau | Cyfradd Ganfod (%) |
|---|---|---|---|
| Prifysgol Aneurin Bevan | 564 | 6 | **1.1** |
| Prifysgol Betsi Cadwaladr | 1,201 | 11 | **0.9** |
| Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 318 | 4 | **1.3** |
| Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 581 | 4 | **0.7** |
| Prifysgol Hywel Dda | 514 | 7 | **1.4** |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 306 | 5 | **1.6** |
| Prifysgol Bae Abertawe | 448 | 4 | **0.9** |
| Anhysbys | 86 | 3 | **3.5** |
| **Cymru Gyfan** | **4,018** | **44** | **1.1** |

Noder: Mae dynion ag ymlediad (≥3cm) a gafodd ei ganfod dim ond wedi'u cyfrif ar y sgan diffiniol cyntaf nid sganiau gwyliadwriaeth. Nid yw heb ei ddelweddu yn ganlyniad sgan diffiniol. Mae anhysbys yn cyfeirio at ddynion na ellir eu dyrannu i Fwrdd Iechyd. Fodd bynnag maent wedi'u cynnwys yn y cyfanswm ar gyfer Cymru gyfan.

## 3.5 Nifer y rhai a gafodd oruchwyliaeth ar gyfer Ymlediad

Mae nifer y rhai a gafodd oruchwyliaeth ar gyfer y cyfnod amser hwn 2020-21, yn cynnwys dynion ag ymlediad canolig a ganfuwyd, a wahoddwyd am oruchwyliaeth chwarterol, a dynion ag ymlediad bach a ganfuwyd, a wahoddwyd am oruchwyliaeth flynyddol.

Yn ystod 2020-21, aethpwyd i 525 o apwyntiadau goruchwyliaeth (47.0%) o fewn y safon o blith 1,117 o gyfleoedd posibl (dylai dynion ag ymlediad canolig ar oruchwyliaeth chwarterol gael eu hailsganio o fewn 11 i 15 wythnos, a dylai dynion ag ymlediad bach, ar oruchwyliaeth flynyddol, gael eu hailsganio o fewn 50 i 56 wythnos i'w sgan llwyddiannus blaenorol).

## 3.6 Atgyfeirio i dîm amlddisgyblaethol

Yn ystod 2020-21, cafodd 44 o ddynion eu sganio ac roedd angen eu hatgyfeirio i dîm amlddisgyblaethol y rhwydwaith fasgwlaidd dewisol. Nid yw hyn yn cynnwys atgyfeiriadau i wasanaethau fasgwlaidd ar alwad (h.y. y rhai ag ymlediad mawr iawn wedi'i ganfod). O'r cyfanswm a gafodd ei atgyfeirio, cafodd 90.9% eu hatgyfeirio o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r sgan.

Cafodd 37 o ddynion lawdriniaeth agored neu endofasgwlaidd. Mae hon yn garfan wahanol i'r dynion a gafodd eu sganio a'u hatgyfeirio yn y flwyddyn. Cafodd dau (5.4%) o'r rhain eu llawdriniaeth wedi'i chwblhau o fewn pedair neu wyth wythnos i'r atgyfeiriad gael ei dderbyn, yn dibynnu ar faint yr ymlediad a ganfuwyd. Mae cydymffurfiaeth â'r safon amseroldeb hon wedi'i thrafod yn y cyfarfodydd ar y cyd rhwng y Rhaglen a Chydlynwyr Tîm Amlddisgyblaethol y Rhwydwaith Fasgwlaidd Dewisol. Mae cydlynwyr y Tîm Amlddisgyblaethol yn cyflwyno adroddiad eithriad ar gyfer pob dyn sy'n torri'r safon amseroldeb atgyweiriad a/neu'n cael yr atgyweiriad mewn ysbyty lloeren yn hytrach na'r safle canoli y cytunwyd arno.

Mae gostyngiad o ran cydymffurfio â'r safon hon o gymharu â'r Adroddiad Ystadegol Blynyddol blaenorol. Yn 2019-20, cafodd 12 o ddynion (24.0%) eu llawdriniaeth o fewn y safon amseroldeb. Mae sawl ffactor yn gyfrifol am yr oedi o ran triniaeth yn ystod y ddwy flynedd gan gynnwys:

- Dynion â chydafiacheddau eraill
- Lleihad o ran capasiti theatr
- Oedi mewn profion diagnostig cyn llawdriniaeth
- Amrywiad yn y cynnydd o ran datblygu'r rhwydweithiau fasgwlaidd dewisol rhanbarthol

# 4 Diffiniadau

Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o fanylion am y cyfrifiadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

**Cymwys**
Ar gyfer cyfrifo canran y rhai a gafodd eu sgrinio, dynion cymwys oedd y rhai a oedd yn byw yng Nghymru a wahoddwyd yn y cyfnod amser. Mae dynion a gofrestrwyd â llaw (fel hunanatgyfeiriadau) wedi'u heithrio. Mae dynion a wahoddwyd a gafodd eu heithrio o'r rhaglen yn y cyfnod amser yn sgil y ffaith eu bod allan o'r garfan wedi'u dileu.

**Nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio**
Cafodd dynion eu cyfrif fel rhai a ymatebodd i'w gwahoddiad os cawsant eu gwahodd yn ystod y cyfnod amser Ebrill – Mawrth ac aethant i'w hapwyntiad erbyn 30 Mehefin 2020.

**Amddifadedd**
Cafodd cwintelau amddifadedd eu pennu drwy ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2014, a'u mesur ar lefel ardal cynnyrch ehangach haen is. Mae ardaloedd cynnyrch ehangach haen is wedi'u graddio i gwintelau Cymru gyfan er mwyn gallu eu cymharu rhwng byrddau iechyd. Mae hyn yn golygu na fydd cyfran gyfartal o bobl ym mhob cwintel pan fyddwch yn ystyried pob bwrdd iechyd e.e. yn Sir Fynwy, mae 40% o'r boblogaeth yn byw yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru, ond nid oes unrhyw ardaloedd yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru.

**Bwrdd Iechyd**
Dyma'r bwrdd iechyd preswyl.

**Canlyniad**
Mae canlyniad sgan diffiniol yn eithrio'r rhai a gafodd ganlyniad terfynol lle nad oedd yn bosibl delweddu'r aorta abdomenol.

# 5 Tîm Cynhyrchu

Cyflogir y tîm cynhyrchu ar gyfer yr adroddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac fe'u rhestrir isod.

| | |
|---|---|
| Jeremy Surcombe | Pennaeth Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru |
| Dr Sharon Hillier | Cyfarwyddwr yr Adran Sgrinio |
| Heather Lewis | Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus |
| Helen Clayton | Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data |
| Richard Wakely | Uwch-ddadansoddwr Gwybodeg a Data |
| Guy Stevens | Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data |
| | |
| Rhys George | Cofus Cyf (Cyfieithydd) |